Y Comisiwn Etholiadol

Isetholiadau cyffredinol Senedd y DU

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 6 o 6 – Ar ôl datgan y canlyniad

Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i isetholiadau Senedd y DU. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan ar: www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents.

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2
Llw Seneddol neu gadarnhad teyrngarwch 2
Dychwelyd ernes 3
Deisebau etholiadol 3
Beth sy'n digwydd i waith papur etholiad ar ôl datgan y canlyniad? 3
Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad 3
Gwybodaeth ategol 5
Cyflwyno deiseb etholiadol 5
Archwilio a chyflenwi dogfennau cysylltiedig ag etholiad 6
Archwilio a chyflenwi cofrestrau wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol 7
Archwilio dogfennau etholiad eraill 8
Ffurflenni gwariant etholiad 8

2

Gwybodaeth hanfodol

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn leol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein Dogfen trosolwg am fanylion cyswllt.

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ymgyrchu yn isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr.

Ceir gwybodaeth ategol, sydd o bosib ond yn berthnasol i rai ymgeiswyr, ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellwch weld y canllawiau ategol trwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' pan fyddwn yn cyfeirio at ofynion penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau yr ydym yn eu hystyried yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau generig drwy'r ddogfen i roi syniad o amseru ar gyfer y prif brosesau. Fodd bynnag dylech gael copi o'r amserlen penodol ar gyfer yr isetholiad gan y Swyddog Canlyniadau (Cwsithredol)

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Llw Seneddol neu gadarnhad teyrngarwch

1.1 Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwybodaeth am sut y gallant fynychu'r Senedd.

1.2 Cyn y gall person eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Cyffredin, rhaid iddynt gymryd y Llw Seneddol neu gadarnhad teyrngarwch i'r frenhines. Mae hyn yn cael ei adnabod fel tyngu llw. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am dyngu llw neu gadarnhad teyrngarwch ar wefan Senedd y DU.

Dychwelyd ernes

1.3 Bydd yr ymgeiswyr hynny a dderbyniodd fwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth yn cael eu hernes yn ôl erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan y canlyniad.

1.4 Bydd yr ymgeiswyr hynny sydd wedi derbyn pleidlais sy'n hafal neu'n llai na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth yn colli eu hernes.

Deisebau etholiadol

1.5 Gall canlyniad etholiad Senedd y DU gael ei herio drwy ddeiseb etholiadol. Am ragor o fanylion ynghylch herio etholiad, gweler paragraff **1.10**.

Beth sy'n digwydd i waith papur etholiad ar ôl datgan y canlyniad?

1.6 Yng Nghymru a Lloegr, cedwir yr holl ddogfennau etholiad gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn yr Alban, maent yn cael eu cadw gan y Swyddog Canlyniadau.

1.7 Mae'r mwyafrif o ddogfennau ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus. Noder nad yw papurau pleidleisio yn agored i archwiliad cyhoeddus. Os dymunwch archwilio dogfennau etholiad, gweler paragraff **1.18** am ragor o wybodaeth.

Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad

1.8 O fewn 35 diwrnod o ddatgan canlyniad yr etholiad, bydd angen i'ch asiant etholiad baratoi a chyflwyno ffurflen gwariant etholiad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Yn ogystal, bydd angen i chi a'ch asiant etholiad lofnodi datganiad yn nodi

bod y cofnod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

1.9 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar y ffurflen yn Rhan 3: Gwariant a rhoddion. Rydym hefyd wedi cynhyrchu ffurflenni y gallwch eu defnyddio i gwblhau eich ffurflen a'ch datganiad. Mae'r ffurflenni hyn i'w cael yn yr adnoddau o dan Rhan 3 o'n gwefan.

Gwybodaeth ategol

Cyflwyno deiseb etholiadol

1.10 Dim ond pobl benodol a gaiff gyflwyno deiseb etholiadol, a dim ond mewn amgylchiadau neilltuol.

1.11 Caiff y canlynol gyflwyno deiseb etholiadol Senedd y DU:

- person sy'n honni ei fod wedi bod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- person sy'n honni ei fod â hawl i gael ei ethol neu ei ddychwelyd yn yr etholiad, neu
- person a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad neu yr oedd ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad, ac eithrio etholwr sydd wedi'i gofrestru'n ddienw

1.12 Y seiliau a ganiateir ar gyfer deiseb yw y cafwyd:

- etholiad amhriodol, neu
- ffurflen amhriodol

1.13 Ceir proses farnwrol ar wahân ar gyfer herio etholiad AS ar y sail eu bod yn anghymwys neu wedi bod yn anghymwys o dan Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 (fel y'i diwygiwyd). Yn yr achos hwnnw, gellir gwneud cais i'r Cyfrin Gyngor am ddatganiad i'r perwyl hwnnw (ar yr amod nad yw deiseb yn yr arfaeth, neu na wnaed Gorchymyn Tŷ'r Cyffredin i ddiystyru'r gwaharddiad).

1.14 Rhaid i'r Aelod y mae'r gŵyn am ei etholiad neu ei ffurflen yn ymwneud â hi fod yn atebydd i'r ddeiseb. Os yw'r ddeiseb yn cwyno am ymddygiad Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu ei staff yn ystod yr etholiad, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd fod yn atebydd.

1.15 Fel arfer mae'n rhaid i ddeiseb yn cael ei chyflwyno o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dychwelyd y writ (a fydd yn y rhan fwyaf o achosion y diwrnod ar ôl yr etholiad) a gellir ei chyflwyno ar unrhyw adeg hyd at, ond heb fod yn hwyrach na, 12 o'r gloch hanner nos ar y diwrnod olaf. Fodd bynnag, os yw'r ddeiseb yn cwyno am arferion llwgr neu anghyfreithlon sy'n ymwneud â thalu arian neu wobr arall, neu arfer anghyfreithlon sy'n ymwneud â gwariant etholiad, gellir caniatáu amser pellach.

1.16 Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol, gan gynnwys cadarnhau'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol, dylech gysylltu â:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL
E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7947 6877
Ffacs: 0870 324 0024

1.17 Ceir costau ynghlwm wrth ddeiseb etholiadol. Os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb etholiadol, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cymryd cyngor cyfreithiol annibynnol.

Archwilio a chyflenwi dogfennau cysylltiedig ag etholiad

1.18 Yng Nghymru a Lloegr, gall dogfennau sydd ar gael i'w cyflenwi a'u harchwilio gael eu darparu gan eich Swyddog Cofrestru Etholiadol, ac eithrio ffurflenni gwariant etholiad, a gedwir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Gellir gweld manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ar wefan y Comisiwn Fy mhleidlais i ar www.fymhleidlaisi.co.uk

1.19 Yn yr Alban, cedwir yr holl ddogfennau gan y Swyddog Canlyniadau. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau drwy eich cyngor lleol.

Archwilio a chyflenwi cofrestrau wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.20 Mae'r cofrestrau etholiadol wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol yn dangos pwy sydd wedi cael papur pleidleisio, pwy sydd wedi dychwelyd eu papur pleidleisio post, ac ar ran pwy y cafwyd pleidlais trwy ddirprwy.

1.21 Gellwch archwilio neu gael copïau o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol ar ôl yr etholiad os gwnewch gais ysgrifenedig. Yng Nghymru a Lloegr, rhaid gwneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn yr Alban, rhaid gwneud cais i'r Swyddog Canlyniadau.

1.22 Nodwch mai dim ond i bwrpasau ymchwil neu etholiadol y cewch wneud defnydd o'r wybodaeth a geir o'r dogfennau hyn.

1.23 Rhaid i'r cais archwilio fanylu ar y canlynol:

- am ba ddogfennau y gofynnir
- i ba bwrpasau y defnyddir y wybodaeth mewn unrhyw ddogfen
- pan fo'r cais i weld cofrestr wedi'i marcio neu restrau, unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio'n ddigon i gyflawni'r diben
- pwy fydd yn archwilio'r dogfennau
- y dyddiad yr hoffent archwilio'r dogfennau, a
- p'un a fyddai well ganddynt archwilio'r dogfennau ar ffurf argraffedig neu ar ffurf data

1.24 Bydd yr archwilio'n digwydd dan oruchwyliaeth, a bydd yn rhad ac am ddim. Ni ellwch wneud copïau ond cewch wneud nodiadau mewn llawysgrifen.

1.25 Rhaid i'r cais am gyflenwi fanylu ar:

- pa gofrestr wedi'i marcio neu restrau (neu'r rhan berthnasol o'r gofrestr neu restrau) y gofynnir amdanynt

- p'un a ofynnir am gopi argraffedig o'r cofnodion neu restrau, neu gopi ar ffurf data
- i ba bwrpasau y defnyddir y gofrestr wedi'i marcio neu restrau a pham na fyddai cyflenwad neu brynu copi o'r gofrestr neu restrau heb eu marcio llawn yn ddigonol i gyflawni'r pwrpas hwnnw

1.26 Cyflenwir y ddogfen y gofynnir amdani am ffi o £10 + £2 am fersiwn argraffedig a £1 am fersiwn data fesul 1,000 o gofnodion.

1.27 Noder y bydd y dogfennau hyn yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, sy'n cael eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, oni bai bod gorchymyn llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

1.28 Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ni fydd data personol a brosesi at unrhyw ddiben yn cael ei gadw'n hirach nag sy'n hanfodol ar gyfer y diben hwnnw. Os gofynnwch am, a'ch bod yn cael y wybodaeth a restrir uchod, unwaith bod y pwrpas ar gyfer casglu'n data wedi mynd heibio, mae angen i chi ystyried os oes rheswm i chi gadw'r data yna. Os nad oes rheswm, dylech sicrhau eich bod yn dinistrio unrhyw ddata sydd gyda chi.

Dim ond yn ystod yr amser ar gyfer cyflenwi papurau enwebu y gall papurau enwebu gael eu harchwilio, a dim ond gan yr ymgeiswyr, eu hasiant etholiad, eu cynigydd ac eilydd. Ceir manylion pellach yn Rhannau 2a neu 2b.

Archwilio dogfennau etholiad eraill

1.29 Cewch archwilio dogfennau etholiad eraill, ond ni chewch wneud nodiadau na chymryd copïau o unrhyw rai o'r dogfennau hyn. Yr unig ddogfennau na ellir eu harchwilio yw:

- y papurau pleidleisio
- y rhestrau rhifau cyfatebol
- y tystysgrifau sy'n caniatáu i staff gorsafoedd pleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio lle maent yn gweithio
- papurau enwebu

1.30 Bydd yr holl ddogfennau etholiad yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, sy'n cael eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, oni bai bod gorchymyn llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

Ffurflenni gwariant etholiad

1.31 Gall unrhyw berson archwilio ffurflenni gwariant ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Hefyd gellir gwneud copïau am ffi o 20c fesul ochr.

1.32 Cedwir ffurflenni gwariant am ddwy flynedd. Gellwch ofyn am iddynt gael eu dychwelyd i chi ar ddiwedd y cyfnod hwn. Os nad ydych chi neu eich asiant eisiau hwy'n ôl, byddant yn cael eu dinistrio.